

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymchwil Defra 'Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr'



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Manylion pwysig am Winning Moves

Sefydlwyd Winning Moves Ltd ym 1995 ac mae'n cynnal gwaith ymchwil a gwerthuso ar ran sefydliadau llywodraethol, sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus a sefydliadau eraill. Rydym ni'n gweithredu'n bennaf fel Prosesydd Data – ond, ar adegau, efallai y byddwn ni'n gweithredu fel Rheolydd Data (naill ai'n unigol neu ar y cyd) yn dibynnu ar natur ein gwaith.

📞 Rhif y cwmni | 03069806

📍 Cyfeiriad | Winning Moves, 102 Colmore Row, Birmingham, B3 3AG, Lloegr

📞 Ffôn | 0121 285 3800

✉ E-bost | info@winningmoves.com

📞 Rhif Cofrestru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Z6399957

Ein hymrwymiad i'ch preifatrwydd

Mae eich preifatrwydd chi yn bwysig iawn i Winning Moves Ltd ac rydym ni wedi ymrwmo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol a'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu wrth gynnal ymchwil gyda ni. Darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn ofalus a chysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

Rydym ni wedi ymrwmo i fodloni cyfreithiau, codau, cofrestrïadau a safonau perthnasol



Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR)



Data Protection Act
2018

Deddf Diogelu Data 2018



Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS)



ISO20252:2019 – Y Safon Ansawdd Ryngwladol ar gyfer y Farchnad, Barn ac Ymchwil Gymdeithasol



Rhif Cofrestru Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | Z6399957



Hanfodion Seiber

Fel Cwmni Partner Cymdeithas Ymchwil y Farchnad, gallwch chi ymddiried y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin â pharch, ac y bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion y byddwn ni'n rhoi gwybod i chi amdany'n nhw yn unig Nid gwerthu na hyrwyddo unrhyw beth yw ein nod. Rydym ni'n cynnal ymchwil i'r farchnad gan ddefnyddio dulliau gwyddonol ac rydym ni'n ymrwymo, wrth gael eich cydweithrediad, i beidio â'ch camarwain am natur yr ymchwil na sut bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio. Gallwch chi gadarnhau ein bod ni'n gwmni ymgynghori ymchwil i'r farchnad bona fide drwy gysylltu â'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad (MRS) ar radffôn 0500 396 999.

Cefndir

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) eisiau asesu effaith rheoliadau labelu bwyd ar y diwydiant bwyd a diod. I wneud hyn, mae Defra wedi comisiynu Winning Moves, ochr yn ochr â WRAP (Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau), Icaro a City University i ymgymryd â'i brosiect ymchwil 'Gwybodaeth am Fwyd i Ddefnyddwyr (FIC)'. Bydd yn ceisio archwilio sut mae gweithgynhyrchwyr bwyd a manwerthwyr bwyd yn delio â'r rheoliadau hyn yn gyffredinol, yn ogystal ag effaith newidiadau mwy diweddar i ddeddfwriaeth labelu bwyd. Mae Winning Moves yn cynnal arolwg dros y ffôn gyda busnesau bwyd i lywio'r asesiad hwn. Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol.

Rheolydd data a phroseswyr data

At ddibenion y prosiect hwn:

1. Defra yw'r rheolydd data
2. Mae Winning Moves yn brosesydd data
3. Mae WRAP hefyd yn brosesydd data

Y math o ddata a fydd yn cael ei brosesu

Ar gyfer y prosiect hwn, byddwn ni'n prosesu'r mathau canlynol o ddata personol:

1. Data *syml* gan gynnwys eich enw, cyfeiriad e-bost, oedran, enw sefydliad, rhif ffôn.
2. Data *yddygiad* gan gynnwys eich gwybodaeth, profiadau (a allai arwain at broffilio), barn a phrofiadau'n ymwneud â labelu bwyd.
3. Data *ariannol* gan gynnwys eich trosiant a'ch costau cydymffurfio.

Sut rydym ni'n cael y data personol rydym ni'n ei brosesu

Mae'r rhan fwyaf o'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei darparu drwy'r ffyrdd canlynol:

- ☞ Cafwyd eich manylion cyswllt gan ddarparwr cronfa ddata masnachol (Dun a Bradstreet).
- ☞ Drwy gyfweled e.e. drwy ymateb i'r arolwg hwn rydych chi'n cael eich gwahodd i gymryd rhan ynddo.

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol

O dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), y seiliau cyfreithlon rydym yn dibynnu arnynt ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:

1. *Cydsyniad* yw'r sail gyfreithiol y byddwn ni'n prosesu data personol ychwanegol a ddarperir drwy gyfweiliadau.
2. Byddwn ni'n defnyddio *buddiant dilys* fel y sail gyfreithiol ar gyfer rhannu enw'r busnes ac enw'r ymatebydd o unrhyw fusnes manwerthu bwyd mawr (yn unig) sy'n gwrthod cymryd rhan mewn cyfweiliad gyda ni lle nad oes gennym ni gyfle i gael cydsyniad ynglŷn â rhannu data.

Sut byddwn ni'n defnyddio eich data personol

- ☞ At ddibenion ymchwil i'r farchnad ac ymchwil gymdeithasol: mae hyn yn cynnwys cynnal dadansoddiadau a pharatoi adroddiadau ar ran y cleient sydd wedi comisiynu'r arolwg.
- ☞ At ddibenion rheoli ansawdd: efallai y byddwn ni'n eich ffonio i ddilysu eich ymatebion.

- 🌊 Ar yr amod eich bod chi wedi rhoi caniatâd, i Winning Moves neu un o'n partneriaid ymchwil gysylltu â chi eto am ymchwil ddilynol.
- 🌊 Bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd yn ôl i'n cleient mewn fformat dienw a chyfunol. Bydd canfyddiadau cyffredinol y canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi.
- 🌊 Ni fydd y data personol y byddwch chi'n ei roi yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau awtomataidd (gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomataidd heb unrhyw gyfranogiad dynol) na phroffilio (prosesu data personol awtomataidd i werthuso rhai pethau am unigolyn).

A fyddwn ni'n rhannu eich data personol?

Bydd eich data personol yn cael ei rannu â'r trydydd partion canlynol:

- 🌊 Defra, y cleient a'r Rheolydd Data. Byddwn ni'n rhannu rhestr ddiogel â Defra o enwau'r busnesau sydd wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg a'r rheini a wnaeth gwblhau'r arolwg. Lle bo'n bosibl, byddan nhw'n cael eu tynnu oddi ar restrau cysylltiadau yn y dyfodol fel na fyddwn ni'n cysylltu â chi eto at y diben hwn neu ymchwil debyg yn y dyfodol agos. Bydd Defra hefyd yn derbyn set ddata ddienw o ymatebion i'r arolwg. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymatebion y byddwn ni'n eu cael yn ystod yr arolwg yn cael eu rhannu â Defra, ond na fydd Defra yn gwybod pwy sydd wedi darparu pa ymateb.
- 🌊 WRAP, Prosesydd Data a rhan o'r consortiwm ymchwil. O dan sail gyfreithlon 'cydsyniad', byddwn ni'n rhannu data personol (enw busnes a manylion cyswllt) unrhyw fusnesau manwerthu mawr (yn unig) sy'n cydsynio i hyn gyda WRAP. Efallai y byddan nhw'n cysylltu â sefydliadau sy'n cydsynio i gymryd rhan mewn agweddau eraill ar y prosiect ymchwil hwn.
- 🌊 Ar wahân, o dan sail gyfreithlon 'buddiant dilys', bydd Winning Moves yn rhannu'n ddiogel â WRAP enw unrhyw fusnes manwerthu bwyd mawr, a'r enw cyswllt ar gyfer y busnes hwnnw, sy'n gwrthod cymryd rhan mewn cyfweiliad. Bydd hyn yn digwydd pan na fyddwn ni wedi cael cyfle i ofyn am eu caniatâd i rannu eu manylion, a dim ond pan fydd hynny'n digwydd. Mae hyn er mwyn sicrhau bod WRAP yn gallu bod yn sensitif i'r cyswllt cyntaf os byddan nhw wedyn yn cysylltu â'r busnes hwnnw fel rhan o'u rôl yn y prosiect ymchwil.
- 🌊 Bydd WRAP hefyd yn derbyn set ddata ddienw o ymatebion i'r arolwg. Mae hyn yn golygu y bydd yr ymatebion y byddwn ni'n eu cael yn ystod yr arolwg yn cael eu rhannu â WRAP, ond na fydd WRAP yn gwybod pwy sydd wedi darparu pa ymateb.
- 🌊 CYMEN, gwasanaeth trawsgrifio Cymraeg er mwyn i ni allu gweinyddu arolygon yn Gymraeg a'u cyfieithu yn ôl i'r Saesneg yn gywir (os byddwch chi'n dewis cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg).

Rhaid i unrhyw drydydd parti hefyd brosesu'r wybodaeth bersonol fel y nodir yn y Polisi Preifatrwydd hwn ac fel y caniateir gan gyfreithiau/Deddf Diogelu Data'r DU.

Sut byddwn ni'n diogelu eich data personol

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Byddwn ni'n diogelu cyfrinachedd eich gwybodaeth yn unol â'n gweithdrefnau trin data arferol a'n holl ofynion cyfreithiol. Ni fyddwn ni'n ei ddefnyddio at unrhyw ddibenion ar wahân i'r rheini sydd wedi'u nodi yn yr Hysbysiad hwn. Rydym ni wedi ymrwymo i gadw data personol yn ddiogel ac rydym ni'n cymryd pob cam technegol a sefydliadol rhesymol i ddiogelu data personol rhag cael ei gollu, ei gamddefnyddio neu ei newid.

Mae'r amser y byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol yn amrywio yn dibynnu ar y math o wybodaeth a'r defnydd ohoni. Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol ar ein systemau dim ond cyhyd ag y bo angen i ddarparu gwasanaethau ymchwil i'n cleientiaid, a byddwn ni'n gwneud data yn ddienw lle bo'n bosibl, gan ddileu data personol sy'n gysylltiedig ag ef yn ddiogel cyn gynted â phosibl. Ar gyfer y prosiect hwn, rydym ni'n bwriadu cadw eich gwybodaeth bersonol am 6 mis ar ôl cwblhau'r prosiect (rydym ni'n disgwyl cwblhau ar 31 Gorffennaf 2024). Bydd eich manylion personol yn cael eu tynnu o'ch ymatebion i'r arolwg a'u storio'n ddiogel ar wahân. Byddwn ni wedyn yn cael gwared ar eich gwybodaeth drwy ddilead digidol diogel.

Lle bydd eich data personol yn cael ei brosesu

Ni fydd eich data'n cael ei drosglwyddo na'i storio y tu allan i'r DU na'r Ardal Economaidd Ewrop.

Defnyddio dulliau proffilio neu ddulliau gwneud penderfyniadau awtomataidd

Dydy'r data personol rydych chi'n ei roi ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:

🌊 dulliau gwneud penderfyniadau awtomataidd (gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomataidd heb unrhyw gyfraniad dynol)

🌊 dulliau proffilio (prosesu data personol awtomataidd i werthuso pethau penodol am unigolion)

Eich Hawliau

Mae cydweithredu mewn ymchwil yn wirfoddol bob amser, ni waeth beth yw pwrpas yr ymchwil na phwy yw ein cleient. Mae gennych chi hawl ar unrhyw adeg i ofyn i'ch data personol, neu ran neu'r cyfan o'r cofnod o'ch ymatebion i'r arolwg, gael eu dinistrio neu eu dileu a byddwn ni'n gwireddu eich cais. Mae modd gofyn am hyn yn ystod y cyfweiliad ei hun neu ar ôl hynny. Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, ni fyddwn ni'n gallu dileu canlyniadau eich arolwg. Mae gennych chi hawl i weld unrhyw ddata personol rydym ni'n ei brosesu sy'n ymwneud â chi. Efallai y byddwn ni'n gofyn am gadarnhad o bwy ydych chi cyn rhyddhau unrhyw wybodaeth i chi.

Sut mae cwyno

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am ein defnydd o'ch gwybodaeth bersonol, gallwch chi wneud cwyn i ni:

Ffôn

0121 285 3800

E-bost

dataprotection@winningmoves.com

Cyfeiriad

Winning Moves
102 Colmore Row
Birmingham
B3 3AG

Gallwch chi hefyd wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd rydym ni wedi defnyddio eich data:

Ffôn

0303 123 1113

Gwefan

<https://www.ico.org.uk>

Cyfeiriad

Swyddfa'r Comisiynydd
Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF